Cymanfa Ganu Dosbarth y Garn

yng

Nghapel y Garn

Dydd Sul Ebrill 6ed 2003

am 2.30 a 5.30 o'r gloch

Arweinydd: Dr Rhidian Griffiths, Aberystwyth

Llywyddion:

Prynhawn: Mrs Mair Eleri Jones

Hwyr: Mr D Bryn Lloyd

Mae'r Parch Gareth Roberts, 82A Chiltern St, Llundain W1U 5AQ (Ffôn 07786414459), caplan Henaduriaeth Llundain, yn ceisio casglu gwybodaeth am Gymry sy'n byw yn Llundain. Os gwyddoch chi am unrhyw bobl ifainc neu deulu ifanc sydd eisoes yn byw yn Llundain neu sy'n debygol o symud yno yn y dyfodol agos, cysylltwch â Mr Roberts neu â'r Swyddogion.

***Mynwent y Garn***

Rydym yn ddiolchgar i'r rhai sydd eisoes wedi cyfrannu at gostau gwella llwybrau'r fynwent drwy osod cyrbiau ar y ddwy ochr. Mae'r swm a dderbyniwyd hyd yma yn £400. Byddwn yn rhoi rhestr o'r cyfranwyr yng nghyntedd y capel yn y flwyddyn newydd. Gobeithiwn godi digon o arian i orffen y gwaith cyn diwedd y gwanwyn. Bydd Eddie Jones, Gofalwr y Fynwent, yn falch o dderbyn pob cyfraniad.


Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 9fed Mawrth i:


Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel
(828026)
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn
(828662)
Marian_Hughes@btinternet.com


# GAIR O'R GARN

CYLCHLYTHYR EGLWYS Y GARN, BOW STREET



Rhif 8
Calan 2003

**Duw cariad yw**


***Gweinidog***
Parch R W Jones
Haddef
6 Maes Afallen
Bow Street
(01970 828006)

***Ysgrifennydd***
Mr Eddie Jenkins
Eryl
Llandre
Bow Street
(01970 828147)

### *Gair gan y Gweinidog*

Annwyl gyd-aelodau

Carwn i ddechrau, ar drothwy blwyddyn newydd, ddiolch i bawb sydd wedi gweithio mewn unrhyw ffordd ym mywyd Eglwys y Garn yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Mae rhai pethau y dylid eu crybwyll:

1 Ar Ionawr 7fed am 7.00 gobeithiwn gael gweithdy yn ymwneud â'r ysgol Sul er mwyn llunio rhaglen a chynllunio gwaith ar gyfer y tri mis nesaf.

2 Yn gynnar yn y flwyddyn newydd gobeithiwn gael cyfres o weithdai ar sut i arwain gwasanaethau'r Sul. Bydd y rhain yn agored i bawb yn yr Ofalaeth, ac o bosibl i eglwysi eraill yn Nosbarth y Garn. Mae'r amser yn prysur ddod pan fydd eglwysi'n gyfrifol am eu haddoliad eu hunain oherwydd prinder gweinidogion i arwain gwasanaethau. Gobeithir y bydd y gweithdai hyn a'r hyfforddiant yn help i baratoi lleygwyr ar gyfer y dyfodol.

3 Bregus iawn yw parhad y Cylch Trafod ac er fod cyfarfodydd wedi eu nodi, os na fydd rhagor o gefnogaeth, yna yn anffodus bydd yn rhaid trafod a yw am barhau.

Dymunaf flwyddyn newydd dda a bendithiol i bawb.

*Robert W Jones*

### *Yr Ysgol Sul*

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu gyda gwaith yr ysgol Sul.

Er mwyn cynllunio'r ffordd ymlaen, rydym wedi trefnu cyfarfod / gweithdy yn y Festri am 7 o'r gloch nos Fawrth 7fed Ionawr i BAWB sydd â diddordeb yn nyfodol yr ysgol Sul. Apeliwn ar i rieni plant yr ysgol Sul ac unrhyw un arall a fyddai'n fodlon helpu mewn unrhyw ffordd ddod i'r cyfarfod.

Os na fedrwch ddod i'r cyfarfod ond eich bod yn awyddus i helpu, cysylltwch â'r Bugail neu un o athrawon yr ysgol Sul.

Cynhelir yr oedfaon am 10 a 5 o'r gloch. Ysgol Sul y plant a'r ieuenctid am 10 o'r gloch. Ysgol Sul i oedolion ym Methlehem, Llandre am 2 o'r gloch. Yn dilyn oedfa'r bore, mae gwahoddiad cynnes i bawb gymdeithasu dros gwpanaid o de neu goffi – yr elw at gronfa'r adeiladau.

### Llais yr Ieuenctid

**Er fy mod yn aelod ffres yng Nghapel y Garn, rydw i'n barod yn gweld trefn y gwasanaeth yn ddiflas. Efallai y byddai ychydig o newid nawr ac yn y man yn fuddiol, e.e darlleniad ar y cyd, neu newid trefn rhediad y gwasanaeth. Mi wn yn iawn, o 'mhrofiad tu ôl i'r organ beth yw effeithiau dirgroes cael newid yn y drefn, ond mae fel petawn yn mynd 'trwy'r mosiwns' ym mhob gwasanaeth. Mae pawb yn estyn eu casgliad tra bod y swyddogion yn cyhoeddi, a phawb yn rhoi eu llaw ar Ganeuon Ffydd fel mae'r gweinidog yn bendithio'r gwrandawiad o'i ddarlleniad. Mae'n ymddangos i mi fod gennym fwy o ddiddordeb mewn paratoi ar gyfer rhan nesaf y gwasanaeth na gwrando ar y gweinidog. Efallai fy mod yn anghywir, a bod gan aelodau'r Garn y ddawn i wneud sawl peth ar unwaith, ond rwy'n gobeithio y byddwch yn cymryd ychydig yn fwy o sylw y tro nesaf.**

**Diolch, Seiriol Hughes**

### *Cartref Tregerddan*

*Dymuna'r Fonesig Alwen ddatgan ei gwerthfawrogiad o gyfraniadau aelodau'r Eglwys i'r gwasanaethau yng Nghartref Tregerddan yn ystod y flwyddyn. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth.*

## *Grŵp Help Llaw*

* **Stampiau**. Casglwyd dros 40,000 o stampiau yn ystod y flwyddyn er budd OXFAM. Daliwch ati i gasglu dros yr wythnosau nesaf yma, gan fynd ar ofyn cymdogion a ffrindiau. Cofiwch adael rhimyn bach o bapur o gwmpas pob stamp.

* **Cymorth i Bosnia**. Mae Eric Harries o Aberystwyth yn gobeithio mynd â Chymorth i Bosnia unwaith eto ddiwedd Mawrth. Bwriadwn drefnu bore agored yn Festri'r Garn, Sadwrn 8fed Mawrth, i dderbyn rhoddion o fwydydd sych, defnyddiau ymolchi ac ati. Mwy o fanylion eto.

* **Tŷ Gobaith yng Nghymru**. Ymgyrch arall o hyn i'r Pasg fydd codi arian at yr achos teilwng hwn, sef hosbis i blant yng ngogledd Cymru. Os oes diddordeb gennych, yna trowch i mewn i Help Llaw am 2.30 ar brynhawn Mercher.

* **Operation Christmas Child**. Diolch o galon am gyfraniadau hael o nawdd i'r Bocsys Operation Christmas Child ym mis Rhagfyr.

*Shân a Bethan*

***Gwylnos*** Dewch i groesawu'r flwyddyn newydd mewn myfyrdod a defosiwn o dan ofal y Bugail nos Fawrth 31 Rhagfyr am 11.30 o'r gloch yr hwyr. Croeso cynnes i bawb.

## Ionawr

| | |
|---|---|
| **5** | Parch Elwyn Pryse<br>Parch W J Edwards |
| 7 | Gweithdy i lunio rhaglen yr ysgol Sul am 7 o'r gloch |
| 8 | Cymdeithas y Chwiorydd am 2.30 o'r gloch<br>Philip Thomas, Llanelli – 'Y Wên'<br>Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu am 7 o'r gloch |
| 10 | Cwrdd Gweddi Dechrau'r Flwyddyn am 7 o'r gloch |
| **12** | Dr Rhidian Griffiths |
| 15 | Grŵp Help Llaw am 2.30 o'r gloch<br>Llŷr James a Caroline yn rhannu eu profiadau yn Nairobi |
| 16 | Cylch Trafod dan ofal y Bugail am 7 o'r gloch |
| 17 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch<br>'Mae'n werth ei ddarllen' – Panel Lleol |
| **19** | Bugail (Cymun am 5 o'r gloch) |
| 22 | Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu am 7 o'r gloch |
| 23 | Cylch Trafod dan ofal y Bugail am 7 o'r gloch |
| 24 | Pwyllgor Blaenoriaid |
| **26** | Parch Ieuan S. Jones<br>Bugail |
| 30 | Cylch Trafod dan ofal y Bugail am 7 o'r gloch |

## Chwefror

**2** Parch T J Irfon Evans

5 Cymdeithas y Chwiorydd am 2.30 o’r gloch
Bethan Roberts, Llandre – ‘Gwaith y Seicolegydd Addysg’
Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu am 7 o’r gloch

6 Cylch Trafod am 7 o’r gloch

7 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o’r gloch
‘Hen Lyfr Cownt’ – John Morris, Llanrhystud

**9** Parch Tudor Davies

13 Cylch Trafod am 7 o’r gloch

**16** Bugail (Cymun am 10 o’r gloch)

19 Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu am 7 o’r gloch


20 Cylch Trafod am 7 o’r gloch

**23** Parch W J Edwards
Bugail

27 Cylch Trafod am 7 o’r gloch

28 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o’r gloch.
Dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty’r Hafren, Y Borth
yng nghwmni Dr Rhiannon Ifans, Penrhyn-coch

Dewi Sant



Tyrd fel gwlith a bendithia—ein daear,
O! Dewi, a rhanna
Yn ddoeth drwy dy fuchedd dda
Bwerau dŵr a bara.

*Vernon Jones*

## Mawrth

**2** Parch A O Roberts
Cinio Bara a Chaws dan ofal Dwysli Williams, Dole

5 Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu am 7 o’r gloch

6 Cylch Trafod am 7 o’r gloch

8 Derbyn nwyddau at apêl Bosnia yn y Festri, 9–12 o’r gloch

**9** Parch Stanley Lewis

**16** Bugail (Cymun am 5 o’r gloch)

19 Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu am 7 o’r gloch

**23** Parch Gareth Alban
Bugail

28 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o’r gloch
‘Rhamant y Rheilffyrdd’ – Mr Glyn Jones, Waun Fawr

**30** Mrs Bet Wyn Holmes